Windel Energy

Fferm Solar Bro Treoes

Cylchlythyr Cymunedol:

Ionawr 2024

Mae Fferm Solar Bro Treoes yn ddatblygiad ynni adnewyddadwy arfaethedig sy'n cynnwys adeiladu a gweithredu fferm solar ar y ddaear ochr yn ochr â seilwaith cysylltiedig, gyda'r gallu i gynhyrchu hyd at 9.9MW o ynni adnewyddadwy. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n bennaf o fewn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg gyda rhan o'r llwybr ceblau (sydd i'w gladdu o dan y ddaear), yn cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu lleol, sydd o fewn ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

I gael gwybod mwy, gofynnwch am alwad yn ôl gan y tîm ar 07493 060 539 neu ebost info@treoesvalesolarfarm.co.uk



Cynllun Lleoliad Safle Arfaethedig

Trosolwg o'r Prosiect

Mae'r safle'n cynnwys pedair ardal ddatblygu sy'n gwneud cyfanswm o oddeutu 41 erw (16.5 hectar), ac oddeutu 46.5 erw (19 hectar) o arwynebedd o fewn ffin y llinell goch. Lleolir y safle oddeutu 2km i'r de-ddwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr, 500m i'r dwyrain o Dreoes a 550m i'r gorllewin o Eglwys Fair y Mynydd. Gofynnir am ganiatâd cynllunio dros dro am gyfnod o 40 mlynedd.

Byddai'r cynnig yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o gynhyrchu 100% o'r trydan a ddefnyddir o ynni adnewyddadwy erbyn 2035, gan roi terfyn ar ein dibyniaeth ar danwydd ffosil megis glo, olew a nwy naturiol a disodli'r rhain â ffynonellau ynni carbon isel newydd gan leihau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol a'i effeithiau.

Gallai'r prosiect gynhyrchu digon o drydan adnewyddadwy ar gyfer hyd at 2,600 o gartrefi bob blwyddyn a gwrthbwyso dros 3,800 tunnell o CO_2 y flwyddyn.*

*Ystadegau Ynni Gwynt Adnewyddadwy y DU wedi'u haddasu trwy Statista UK

Ymgynghori cyn gwneud cais

Rydym yn dechrau ymgynghoriad cyn gwneud cais cyn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a fydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio.

Hoffem eich gwahodd i fynychu arddangosfa gyhoeddus galw heibio i drafod y cynnig yn Neuadd Bentref Treoes, Nant Canna, Treoes CF35 5DE ar **29 Ionawr 2024** o 1pm tan 7pm.

Os hoffech fynychu, cofrestrwch eich diddordeb yn info@treoesvalesolarfarm.co.uk

Fel arall, mae gwefan y prosiect www.treoesvalesolarfarm.co.uk yn rhoi rhagor o wybodaeth am y cynnig yn ogystal â'r cais cynllunio drafft a'r deunyddiau ymgynghori. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw **20 Chwefror 2024**.

Rhowch eich barn i ni

Rydym am glywed eich adborth ar ein cynnig. Gallwch anfon eich barn atom trwy unrhyw un o'r sianeli a restrir isod:

- Ffurflen Adborth ar gael yn yr arddangosfa gyhoeddus ac ar-lein yn www.treoesvalesolarfarm.co.uk. Byddwn hefyd yn postio copïau caled ar gais.
- Gellir anfon adborth ysgrifenedig i info@treoesvalesolarfarm.co.uk
- Gallwch bostio eich adborth i: FREEPOST PC CONSULTATION (nid oes angen stamp)
- Cofrestrwch eich barn neu gofynnwch am alwad yn ôl gan y tîm cyfathrebu drwy ffonio 07493 060539
- Cofrestrwch am ddiweddariadau prosiect yn www.treoesvalesolarfarm.co.uk

Sganiwch y cod QR i weld gwefan y prosiect, deunyddiau ymgynghori a rhannu adborth.

Amdanom ni

Mae Fferm Solar Bro Treoes (Windel Solar 9 Limited) yn is-gwmni i Windel Energy Limited & Recurrent Energy

Windel Energy

RECURRENT ENERGY
A subsidiary of Canadian Solar

I gael gwybod mwy, gofynnwch am alwad yn ôl gan y tîm ar 07493 060 539 neu ebost info@treoesvalesolarfarm.co.uk